

Gan bwyll mae mynd ymhell – os ffrwnwn y cwmniau carbon

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn dadlau bod angen pwyll wrth chwilio am ffynonellau ynni newydd...

RAI blynyddoedd yn ôl roedd ambell un, a minnau yn eu plith, yn gobeithio y byddai prinder olew, yr hyn a elwid yn “*peak oil*”, yn gorfodi lleihad yn ein dibyniaeth ar losgi tanwydd ffosil hydrocarbon ac, o ganlyniad, yn hyrwyddo ynni adnewyddadwy.

Er y byddai'r newid yn anghyfforddus a chostus iawn, ein gobaith oedd y byddai'r pwysau economaidd a hunan-les yn ysgogi'r cwmnïau ynni rhyngwladol i fuddsoddi'n drwm mewn technolegau amgen, cynaliadwy.

Y gobaith oedd osgoi dadleuon chwerw rhwng y gwledydd ynglŷn â thegwch a phrisio carbon etc ac y byddai'n awtomatig yn lleihau ein hallyrion o nwyon tŷ gwydr.

Nid felly y bu!

Mae olew crai yn ddrutach, a dyw meysydd olew confensiynol ddim yn cael eu darganfod mor gyflym ag y mae'r rhai presennol yn diflannu. Yn ôl bob tebyg, bu'r cronfeydd yn gwacau tua 6% y flwyddyn ers 2005.

Ond ni fu tro ar fyd. Mae dyfeisgarwch, gallu technolegol a phocedi dwfn y cwmnïau ynni wedi agor ffynonellau newydd. Ymysg y mwyaf yw bitwmen Athabasca yng Nghanada; stôr o olew yn y tywod-tar – tua chymaint â stôr Sawdi Arabia - sef y mwyaf ar ein planed hyd y gwyddwn.

DRUTACH A MWY NIWEIDIOL

Mae modd adennill canran o dar/olew Athabasca ac adnoddau cyffelyb mewn mannau eraill ond am bris uchel. Hynny yw, mae'r cynnyrch yn sylweddol ddrutach nag olew cyffredin ac mae'n llawer mwy niweidiol i'n hamgylchedd. Ond pa ots, mae yna bres mawr i'w wneud!

Mae Llywodraeth Canada mor frwd dros y datblygiad fel eu bod wedi troi cefn ar Gytundeb amgylcheddol Kyoto!

Yn ddiweddar darganfuwyd maes olew newydd ger arfordir Brasil ac mae sawl cwmni, fel Shell, a'r Rwsiaid wedi datgan eu bwriad i chwilio a thyllu am olew yn yr Arctig!

Yn ogystal, mae nwy ffracio wedi newid y farchnad yn America (dros dro?), er y gwendidau amlwg. Mae sôn hefyd bod Japan a China yn chwilio am ffyrdd i ddefnyddio'r methan sydd wedi'i rhewi o dan foroedd yr Arctig.

Felly'r duedd fasnachol a gwleidyddol yw betio ar fwy nid llai o ddefnydd o hydrocarbonau.

Mae hyn yn anwybyddu un o gasgliadau mwyaf grymus adroddiad diweddar y Panel Rhyngwladol [IPCC]. Yn syml mae'r CO₂ sy'n cael ei ryddhau trwy losgi tanwydd yn aros yn yr awyr am ddegawdau. Felly cyfanswm yr hyn sy'n crynhoi dros y degawdau sy'n bwysig.

Rydym eisoes wedi rhyddhau o gwmpas hanner y CO₂ a fyddai'n arwain at gynnydd peryglus yng nghyfartaledd tymheredd ein planed o 2°C radd. Rydym eisoes yn gwybod am fwy na digon o adnoddau hydrocarbon i achosi'r gweddill.

DEWRION GREENPEACE

I osgoi trafferthion mawr, rhaid gadael rhwng 60 a 80% o'r storffeydd hydrocarbon y gwyddom amdany'n nhw yn eu lle yn y ddaear.

Wrth gwrs, mae elfen o ansicrwydd ond mae'r rhesymeg yn eglur - y polisi call yw pwyll. Dim ond trachwant y farchnad sy'n sbarduno'r chwilio am olew newydd dan yr Arctig a llongyfarchiadau i hogiau a merched Greenpeace am eu dewrder yn herio'r ffwlbri.

Mae goblygiadau pell gyrhaeddol eraill.

Mae cwmnïau ynni mawr yn ystyried eu hadnoddau hydrocarbon yn asedau.

Os yw'r byd am osgoi gorboethi rhaid iddyn nhw aros yn eu lle a bydd gwerth cwmnïau fel Shell a BP yn dymchwel. A gwerth nodi pwysigrwydd y cwmnïau hyn i'r Footsie a'r Dow Jones!

Mae ymgyrch ar droed yn y Prifysgolion a'r Eglwysi i wrthod buddsoddi yn y cwmnïau hyn am eu bod mor anghyfrifol. Gwerth cofio, hefyd, bod mantais i'r cwmnïau, a gwledydd fel Sawdi, i orliwio eu hasedau er mwyn hybu eu gwerth a'u statws.

Yn y New Scientist mae Jeremy Legett yn dadlau nid yn unig am y peryglon ond mai rhith yw chwyldro ffracio America, a bod ein cyflenwadau olew yn llawer mwy ansicr nag sy'n cael ei gydnabod.

Tachwedd 7, 2013